



## Ateb y Llywodraeth i'r gwahaniaethu ar sail oedran yn y Cynllun Pensiwn Athrawon

Ar 4 Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ei hymateb i'w hymgyngoriad ar newidiadau i'r trefniadau diogelu pontio yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Athrawon. Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau ynghylch pensiynau'r athrawon, ac mae ei Hadran Addysg yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad i'w weld ar: <https://www.gov.uk/government/consultations/public-service-pension-schemes-consultation-changes-to-the-transitional-arrangements-to-the-2015-schemes>.

Roedd yn rhaid i Lywodraeth San Steffan ymgynghori ar newidiadau i'r trefniadau diogelu pontio am fod y Llys Apêl wedi barnu bod y trefniadau diogelu pontio sy'n rhan o'r cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus a ddiwygiwyd yn 2015 yn wahaniaethol ar sail oedran. Yr enw ar hyn yw'r dyfarniad yn achos McCloud. Mae gwybodaeth ar gael am y dyfarniad yn achos McCloud ac am ateb Llywodraeth San Steffan i hyn ar wefan NASUWT yn: <https://www.nasuwat.org.uk/advice/pay-pensions/pensions/wales/mccloud-and-unlawful-discrimination-wales.html>.

### Ateb Llywodraeth San Steffan

Mae ateb terfynol Llywodraeth San Steffan i'r gwahaniaethu anghyfreithlon a welwyd gan y llysoedd yr un fath i bob pwrpas â'r cynigion oedd yn amodol ar ymgynghoriad, heblaw bod y Llywodraeth wedi penderfynu pryd y bydd raid i filiynau o athrawon a gweithwyr cyhoeddus eraill wneud dewis personol am eu cronïad pensiwn.

Mae ateb Llywodraeth San Steffan yn berthnasol i bob athro/athrawes a ddechreuodd addysgu cyn 1 Ebrill 2012 ac sydd wedi cronni cyfnodau o wasanaeth yn y Cynllun Pensiwn Athrawon rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 (a elwir y 'cyfnod unioni'). Bydd modd i'r athrawon hyn ddewis a ddylai eu cronïad pensiwn rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 gael ei gynnwys yn y fersiwn 'cyflog terfynol' o'r Cynllun Pensiwn Athrawon neu yn fersiwn 'cyfartaledd gyfaol' 2015 o'r cynllun hwn. Arwyddocâd cael y dewis hwn yw bod eu pensiynau'n cael eu cronni yn y fersiwn 'cyflog terfynol' o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sef cynllun pensiwn sydd ag oedran pensiwn is, fel y bydd modd cymryd eu pensiwn cronnus yn gynharach heb unrhyw ostyngiad actiwaraid. **Nid oes angen i athrawon gymryd unrhyw achos cyfreithiol unigol neu dalu am gyngor pensiwn i elwa o'r ateb.**

Ond, ni fydd pob athro/athrawes y mae'r dull unioni'n berthnasol iddyn nhw'n derbyn buddion uwch os bydd eu pensiwn wedi'i gronni yn ystod y cyfnod unioni o dan y fersiwn 'cyflog terfynol' o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, am fod hyn yn dibynnu ar eu hanes gyfaol fel athrawon a'u hamgylchiadau personol eraill cyn iddynt gymryd eu pensiwn, a dyma pam mae angen rhoi'r dewis i'r athro/athrawes ynglŷn â pha gynllun y mae'n aelod ohono yn ystod y cyfnod unioni. Dadleuodd NASUWT yn gryf ei bod hi'n annheg gofyn i athrawon ddewis cynllun pensiwn pan mae ganddynt wasanaeth pensiwnadwy yn weddill, am na all athrawon ragweld y dyfodol ac felly mae'n bosibl y gallent ddewis y cynllun pensiwn sy'n llai ffafriol os gwnânt eu dewis cyn yr adeg pan fyddent yn ymddeol.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi derbyn dadl NASUWT, a bydd rhaid i'r holl athrawon a'r holl weithwyr cyhoeddus eraill y mae'r dull unioni'n berthnasol iddynt ddewis sut y dylai eu pensiynau gael eu cronni yn ystod

*parhad drosodd*

y cyfnod unioni pan fyddent ar fin cymryd eu pensiynau. Yr enw ar hyn yw'r tanategiad 'dewis gohiriedig' [deferred choice underpin (DCU)]. Os na fydd athrawon yn gwneud dewis o gwbl, byddent yn cael eu trin fel pe baent yn cronni eu pensiynau yn y cynllun cyflog terfynol yn ystod y cyfnod unioni.

Ar 1 Ebrill 2022, bydd yr athrawon i gyd yn symud i fersiwn 'cyfartaledd gyrfaol' 2015 o'r Cynllun Pensiwn Athrawon a bydd yr holl gronni'n digwydd o fewn y cynllun hwn.

### **Ymatebion NASUWT i'r dull unioni**

Nid yw NASUWT yn cytuno gyda'r dull unioni am ei fod yn eithrio athrawon a gychwynnodd addysgu ar 1 Ebrill 2012 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, ac oherwydd bydd yr athrawon i gyd yn cael eu symud, ar 1 Ebrill 2022, i fersiwn 'cyfartaledd gyrfaol' 2015 o'r Cynllun Pensiwn Athrawon sydd ag oedran pensiwn uwch. Felly, mae NASUWT yn credu bod Llywodraeth San Steffan yn parhau i wahaniaethu yn erbyn athrawon iau sydd ag oedran pensiwn uwch am mai'r oedran pensiwn yn y fersiwn 'cyfartaledd gyrfaol' 2015 o'r Cynllun Pensiwn Athrawon yw'r oedran pensiwn gwladol, sy'n uwch i athrawon iau. Yn ogystal, mae'r oedran pensiwn o dan y fersiwn 'cyfartaledd gyrfaol' o'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn rhy uchel i'r athrawon i gyd.

Fodd bynnag, hoffai NASUWT weld pob un o'i aelodau'n elwa cymaint ag sy'n bosib o'r ateb i achos McCloud, ac mae wrthi'n ymgysylltu â'r Adran Addysg yn Lloegr a Teachers' Pensions er mwyn sicrhau bod pob athro ac athrawes yn derbyn yr holl wybodaeth am eu pensiynau personol y byddent ei hangen yn ystod eu gyrfaodded i'w galluogi i gynllunio ar gyfer ymddeol yn yr oedran yr hoffent ymddeol ac hefyd dderbyn y buddion mwyaf posib pan fyddent yn ymddeol.

### **Yr hyn y dylai aelodau o NASUWT ei wneud**

Nid oes angen i'r mwyafrif llethol o aelodau NASUWT wneud unrhyw beth mewn ymateb i'r ateb i achos McCloud. O dan y dull unioni, pan fyddent ar fin ymddeol, bydden nhw'n cael cyfle i wneud dewis ar sail yr wybodaeth a roddir iddynt gan Teachers' Pensions, felly nid oes angen iddynt wneud unrhyw beth ar hyn o bryd. Nid oes angen cysylltu â NASUWT i drafod dull unioni.

Yr aelodau o NASUWT sydd wedi ymddeol ac sydd wedi cronni cyfnodau o wasanaeth yn y Cynllun Pensiwn Athrawon ar ôl 2015 fydd y grŵp cyntaf o athrawon i Teachers' Pensions gysylltu â nhw i roi cyfle iddynt i ddewis croniad mewn Cynllun Pensiwn Athrawon gwahanol. Mae NASUWT wrthi'n gweithio gyda'r Adran Addysg yn Lloegr ar y broses o gyfathrebu â'r aelodau hynny a bydd y cysylltu â'r athrawon sydd wedi ymddeol ac sy'n perthyn i'r categori hwn yn digwydd o Ebrill 2021 ymlaen.

Os oes unrhyw aelod o NASUWT a wnaeth gais i dderbyn pensiwn ar sail salwch ond a wrthodwyd oherwydd eu bod yn gallu dangos bod eu hanalluogrwydd wedi parhau hyd at eu hoedran pensiwn o dan y fersiwn 'cyflog terfynol' o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ond nid hyd at eu hoedran pensiwn o dan fersiwn 'cyfartaledd gyrfaol' 2015 o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, dylent gysylltu â Teachers' Pensions i ganfod a ddylid ail agor eu hachos.

Bydd NASUWT yn cynnal sesiynau briffio i grwpiau o aelodau am oblygiadau achos McCloud iddyn nhw ac mae hefyd wrthi'n gweithio gyda Teachers' Pensions ar ei strategaeth ar gyfer cyfathrebu â'r aelodau mewn perthynas â'r ateb i achos McCloud. Mae Teachers' Pensions wedi casglu atebion i Gwestiynau Cyffredin am achos McCloud sydd ar gael ar: <https://www.teacherspensions.co.uk/members/resources/transitional-protection.aspx>.

**Nid oes angen i athrawon dalu am unrhyw gyngor cyfreithiol neu ariannol er mwyn derbyn gwybodaeth am yr ateb i achos McCloud.**



E-bost: [rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk](mailto:rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk)  
Gwefan: [www.nasuwt.org.uk](http://www.nasuwt.org.uk)